

**13 Ionawr 2025**

**Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth ar y Cynigion Diwygiedig ar gyfer Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd**

**Cyflwyniad**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sydd wedi ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru, fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros ryddid a chyfiawnder ers dros 60 mlynedd.

Rydyn ni'n cefnogi cynnig Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, yn ei gynigion terfynol ar gyfer etholaethau newydd y Senedd yn 2026, i roi enw uniaith Gymraeg ar fwyafrif yr etholaethau arfaethedig. Serch hynny, credwn fod angen i'r pedair etholaeth sydd ag enwau dwyieithog arfaethedig arnyn nhw gael enw Cymraeg yn unig hefyd.

Y Gymraeg yw priod iaith Cymru ac mae'n perthyn i ni i gyd fel dinasyddion Cymru ac i bob rhan o'r wlad, felly mae'n gwbl briodol a rhesymol bod yr enwau a gynigir yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar yr arfer presennol o arddel enwau uniaith ar lawr gwlad.

Mae ein gwleidyddion yn awyddus iawn i'n hatgoffa'n gyson bod y Gymraeg yn perthyn i bawb, ac mae'r Llywodraeth wedi gosod targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai rhoi enw uniaith Gymraeg ar etholaethau arfaethedig yn ffordd o sicrhau bod gweld, clywed a defnyddio enwau Cymraeg yn dod yn norm ym mywyd democrataidd a chenedlaethol Cymru, yn gyson â'r statws swyddogol sydd i'r Gymraeg.

Felly, wrth i ni weld ehangu ar ddemocratiaeth yng Nghymru drwy gynyddu maint ein Senedd genedlaethol a diwygio system etholiadol hen ffasiwn, byddai'n addas iawn i enwau uniaith Gymraeg adlewyrchu ein hyder fel gwlad a'n balchder yn y Gymraeg.

**Y Weithdrefn Enwi**

Yn gyffredinol, rydyn ni'n croesawu'r weithdrefn enwi newydd, yn enwedig yr egwyddor o benderfynu ar yr enw mwyaf addas ar gyfer yr etholaeth yn Gymraeg yn y lle cyntaf; a bod rhoi ystyriaeth i enwau neu eiriau sy'n cael eu defnyddio yn gyffredin ac felly sy'n gyfarwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Fodd bynnag, er mwyn hwyluso rhoi enwau Cymraeg yn unig, mae angen mynd gam ymhellach na hynny ac ychwanegu nod bwriadus o bennu enwau Cymraeg fydd yn gweithio yn y ddwy iaith o'r dechrau, wrth fynd ati i bennu'r enw Cymraeg hwnnw. Er enghraifft, dylid osgoi enwau sy'n cynnwys cyfeiriadau pwynt cwmpas, fel gogledd-orllewin.

Mae'r weithdrefn fel ag y mae yn nodi yng nghymal 7 y bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi mabwysiadu enwau sy'n achosi treiglo. Awgrymwn ddiwygio hyn i nod mwy cyffredinol o geisio osgoi mabwysiadu enwau fyddai'n anodd eu deall i etholwyr di-Gymraeg. Byddai hyn yn cefnogi'r rhagdybiaeth sydd yn y Ddeddf o blaid un enw uniaith, sy'n addas yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae hefyd angen cynnwys, er mwyn cyflawnder, gdnabyddiaeth o swyddogaeth newydd statudol Comisiynydd y Gymraeg yn cynghori ar ffurfiau safonol orgraff enwau, ac fel ymgynghorai statudol yn y cyfnodau agored o ymgynghori i'r cyhoedd ar y dewis o enwau.

### **Dim rhywfo'n ôl**

Mae'r Comisiwn wedi awgrymu mewn datganiadau ers cyhoeddi'r ymgynghoriad terfynol hwn bod y drws yn agored i rhywfo'n ôl ar y cam rhesymol o roi enwau uniaith Gymraeg ar etholaethau, a phlygu i rymoedd adweithiol ac i safbwyntiau fel rhai cyn Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig.

Byddai gwneud hynny'n groes i ewyllys uwch-fwyafrif yn y Senedd wnaeth gytuno yn sgil pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) 2024 i gyfarwyddo'r Comisiwn i roi enw uniaith ar etholaethau, oni bai bod hynny'n annerbyniol. Nid oes rheswm o gwbl pam na fyddai modd rhoi un enw uniaith Gymraeg, sy'n hygyrch ac yn hwylus i bawb, ar bob etholaeth yng Nghymru. Galwn felly ar y Comisiwn i aros yn gadarn ac i gefnogi'r Gymraeg ac anrhydeddus cefnogaeth eang mwyafrif pobl Cymru gyfan i'n hiaith.

### **Enwau Etholaethau – sylwadau ar sylwedd y cynigion diweddaraf**

Fel i ni nodi, rydyn ni'n falch bod enwau Cymraeg ar y mwyafrif o etholaethau yn y cynigion diweddaraf yma. Er hynny, mae'n siomedig bod y Comisiwn yn cynnig amddifadu dwy ardal sylweddol o Gymru, gan gynnwys ein prifddinas, rhag cael un enw Cymraeg sy'n hygyrch i bawb.

Galwn felly ar y Comisiwn i gael gwared ar yr eithriadau anffodus hyn ac i feddwl yn

ddychnygus am enwau addas ar y cymunedau yn y pedair etholaeth sydd ag enwau Saesneg yn ogystal â Chymraeg. Nid oes rheswm i gyfiawnhau trin y cymunedau hyn yn wahanol, a galwn ar y Comisiwn i gwblhau'r darlun yn unol â llythyren ac ysbryd y Ddeddf.

O roi dau enw ar etholaeth, bydd un yn cael ei ffafrio ar lawr gwlad. Mae achosion eraill wedi dangos, gan mai Saesneg yw'r iaith fwyafrifol, mai enw Saesneg sy'n cael ei ffafrio. Er efallai nad oes bwriad trin y Gymraeg yn llai ffafriol yma, mae'n debygol mai dyna fydd yn digwydd os caniateir y bwriad hwn i fynd rhagddo.

Mae pedair etholaeth ag enwau Saesneg iddyn nhw yn ogystal ag enwau Cymraeg. Hoffem gynnig enwau amgen:

### **1. Gorllewin Abertawe Gŵyr (Swansea West Gower)**

Cynigiwn yr enw **Abertawe** fel enw uniaith ar gyfer yr etholaeth hon, gan mai hon yw'r etholaeth sy'n cynnwys swmp Abertawe gan gynnwys canol y ddinas. Fel y gwyddom o enghreifftiau eraill, nid oes angen i etholaeth gynnwys ardal gyfan er mwyn defnyddio enw'r ardal ar yr etholaeth.

Dewis arall posib fyddai **Gŵyr Abertawe**. Mae Gŵyr yn enw digon cyfarwydd ac yn ddigon tebyg i Gower i gael ei ddefnyddio yn Gymraeg yn unig.

### **2. De Powys Tawe Nedd (South Powys Tawe Neath)**

Cynigiwn yr enw **Powys Nedd** fel enw uniaith Gymraeg. Mae mwyafrif Powys yn yr etholaeth hon (yn wir, y cyfan ohoni heblaw am Faldwyn). Fel y nodwn uchod, nid oes angen i etholaeth gynnwys ardal gyfan er mwyn defnyddio enw'r ardal ar yr etholaeth. Dewisiadau amgen fyddai **Powys Tawe Nedd** neu **Powys Tawe**.

### **3. De-ddwyrain Caerdydd Penarth (Cardiff South-east Penarth)**

Cynigiwn **Caerdydd Penarth** fel enw uniaith ar yr etholaeth hon.

### **4. Gogledd-orllewin Caerdydd (Cardiff North-west)**

Cynigiwn **Caerdydd Cwm Taf** fel enw uniaith ar yr etholaeth hon.

Nid ydym yn credu bod angen cyfeiriadau cwmpawd ar enwau etholaethau, na'u bod yn cyfrannu at ddealltwriaeth mwyafrif y boblogaeth o enwau etholaethau. Credwn y bydd yn eglur bod dwy etholaeth Caerdydd, un o'r enw Caerdydd Penarth ac un o'r enw

Caerdydd Cwm Taf, a bydd yn ddigon amlwg i bawb sy'n byw ynddynt ym mha un maent yn byw. Mae digon o gynsail yn enwau etholaethau presennol Senedd San Steffan i'r math yma o beth, er enghraifft yn ardal Birmingham ceir etholaethau Birmingham Ladywood, Birmingham Perry Barr, Birmingham Selly Oak a Birmingham Yardley, ymhlith eraill.

Er ein bod yn cynnig yr awgrymiadau uchod, mae'n bosib y bydd y Comisiwn yn adnabod awgrymiadau amgen o ymgynghori ag academyddion sy'n arbenigo mewn enwau lleoedd. Y nod canolog o sicrhau bod gan bob etholaeth un enw Cymraeg sydd flaenaf i ni, ac fel awgrym y cynigiwn yr awgrymiadau penodol uchod. Fodd bynnag, byddem hefyd yn fwy na hapus i gael sgwrs ffurfiol neu anffurfiol os gallwn fod o unrhyw gymorth.

**Cymdeithas yr Iaith**  
**13 Ionawr 2025**